
ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

13 Ionawr 2026

TEITL: Blaengynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

AWDUR: Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y Blaengynllun Gwaith ar gyfer yr is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r Blaengynllun Gwaith.

2.2. Y gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun er mwyn ystyried newidiadau mewn amserlennu gwaith, yn amodol ar ddod â'r Cynllun i gyfarfod dilynol yr is-bwyllgor i'w gytuno.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn nodi calendr dangosol o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y CCB, a bydd yn ddarostyngedig i'r calendr bwrdeistrefol blyneddol o ddyddiadau pwyllgorau i'w gytuno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mehefin. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn sicrhau bod yr is-bwyllgor yn cyflawni ei rôl fel y nodir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Blaengynllun Gwaith yn nodi'r calendr o gyfarfodydd, ac yn ychwanegol yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr is-bwyllgor ymhellach i'w swyddogaethau deddfwriaethol. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf ar 9 Rhagfyr 2025, adnabu'r Cadeirydd nifer o faterion yr hoffai eu gweld yn cael eu hadrodd i'r is-bwyllgor yn y dyfodol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun sydd ynghlwm (Atodiad 1). Gofynnir i'r Aelodau hefyd ystyried a oes unrhyw adroddiadau ychwanegol y dylid eu dwyn i'w sylw, ynghyd ag unrhyw ofynion hyfforddiant.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae proses ddemocrataidd yr is-bwyllgor yn cael ei hystyried yn briodol drwy raglen waith y cytunwyd arni, sydd wedi'i nodi yn y Blaengynllun Gwaith hwn.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.